Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

15 Mai 2020

**Gwybodaeth ddilynol o'r sesiwn dystiolaeth ar 5 Mai**

Annwyl Julie,

Diolch i chi a'ch swyddogion am gymryd rhan yn ein cyfarfod pwyllgor rhithwir cyntaf ar 5 Mai i drafod effaith Covid-19. Roedd yn ddefnyddiol iawn a bydd yn ein helpu i lywio ein gwaith parhaus.

Cawsom dawelwch meddwl gan y camau gweithredu a'r cymorth allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu yn y sectorau llywodraeth leol a thai. Cawsom ein plesio'n arbennig gan yr ymateb ym maes llywodraeth leol, y sector tai a'r trydydd sector wrth gael rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed oddi ar y strydoedd. Rydym yn hynod ddiolchgar am waith caled pawb sydd wedi bod yn rhan o'r ymdrech hon. Fel y gwyddoch, mae cysgu ar y stryd wedi bod yn un o'r prif feysydd ffocws i ni cyn y pandemig, a gwyddom y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i fwrw ymlaen ag argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Gobeithiwn y gellir parhau â'r camau cadarnhaol hyn a gymerwyd gyda phobl sy'n cysgu ar y stryd ar ôl i'r argyfwng cychwynnol basio, ac y gellir eu helpu i gael llety tymor hir cynaliadwy. Rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i sicrhau na fydd neb yn dychwelyd i fyw ar y strydoedd.

Mae rhai materion y byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth amdanynt, yr wyf yn ymhelaethu arnynt isod:

**Llywodraeth Leol**

Rydym yn croesawu'r dull a amlinellwyd gennych yn eich tystiolaeth, sef bod y cyllid ychwanegol yn seiliedig ar wariant gwirioneddol, yn hytrach na fformiwla, sy'n golygu y gall llywodraeth leol hawlio'r hyn y mae wedi'i wario mewn gwirionedd yn ôl. Fodd

bynnag, mae awdurdodau lleol wedi cysylltu â rhai o'n Haelodau'n nodi, er gwaethaf cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn rhoi £110 miliwn ychwanegol iddynt i ymladd y feirws, nad yw awdurdodau lleol yn gallu cael mynediad ato hyd yma. A allech egluro sut yn union y gall awdurdodau lleol gael mynediad at y cyllid ychwanegol hwn, ac a ydych yn ymwybodol o anawsterau gweinyddol?

Rydym yn ymwybodol o'r anawsterau y gall rhai awdurdodau lleol eu hwynebu wrth gefnogi eu heconomïau lleol, yn enwedig sicrhau bod y stryd fawr yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ystod cyfnod y cyfyngiadau. Rydym yn pryderu bod risg na fydd busnesau yn parhau i fod yn hyfyw, a'r effaith tymor hwy y gallai hyn ei chael ar gymunedau ac economïau lleol. Beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau y gall awdurdodau lleol ddarparu'r lefelau cymorth angenrheidiol i economïau lleol?

Er ein bod yn cydnabod mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw ymateb i'r argyfwng rydym ynddo, nodwn fod awdurdodau lleol, wrth wneud hynny, wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol o ran darparu gwasanaethau ac arferion gwaith. Gall fod yn werth parhau â rhai newidiadau i'r gwasanaeth ar ôl i'r argyfwng hwn basio. Mae hwn yn faes yr ydym yn debygol o ganolbwyntio arno rywfaint yn y dyfodol, ond rydym yn awyddus i wybod pa waith sy'n cael ei wneud yn Llywodraeth Cymru i gofnodi'r newidiadau cadarnhaol hyn a'u rhannu ar draws y sector?

Un o'r newidiadau y mae rhai o'n Haelodau wedi'i nodi yw'r newid agwedd tuag at bartneriaid trydydd sector gan rai awdurdodau lleol. Mae'r trydydd sector yn fwy tebygol o gael ei gynnwys yn y broses benderfynu yn sgil y pandemig. Er enghraifft, mae gwaith craffu blaenorol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dangos bod ymgysylltu â'r trydydd sector yn aml wedi bod yn ddibynnol ar berthnasoedd personol unigol mewn awdurdodau lleol. Sut y gallwn adeiladu ar y newid hwn o ran agwedd a dull gweithredu i sicrhau y bydd yn parhau pan fydd yr argyfwng presennol wedi pasio?

**Tai**

Fel y nodwyd ar ddechrau'r llythyr, roeddem yn falch o glywed am y gwaith cadarnhaol sydd wedi'i wneud i gael pobl sy'n cysgu ar y stryd oddi ar y strydoedd ac i mewn i lety. Nid ydym yn tanbrisio pa mor heriol oedd hyn; a gobeithiwn y gellir adeiladu ar hyn, fel na fydd y bobl hyn yn dychwelyd i'r strydoedd pan fydd yr argyfwng presennol wedi dod i ben. A allech ddarparu rhagor o eglurder ynghylch sut rydych yn sicrhau bod lefel y cymorth a roddir i'r rhai sydd wedi cael llety yn gyson ledled Cymru?

Gwnaethoch dynnu sylw at eich pryder ynghylch effaith gwrthdroi'r newidiadau polisi dros dro presennol gan Lywodraeth y DU wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mewn perthynas â chyfraddau Lwfans Tai Lleol; a'r cymorth i bobl nad oes ganddynt hawl i gael

arian cyhoeddus. Er mwyn i ni ddeall yn well pa waith y mae angen i ni ei wneud ar hyn, os o gwbl, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth i ni am y trafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â’r ddau fater hwn.

Yn olaf, mae un o'n Haelodau wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch gweithredu'r cynllun grant ar gyfer busnesau sy'n gysylltiedig ag ardrethi annomestig (Grant 2) ar ôl i nifer fawr o fusnesau llety gwyliau a chynrychiolwyr y sector gysylltu ag ef. Mae’n pryderu na chynhwyswyd y sector wrth lunio'r meini prawf cymhwysedd ac, o ganlyniad i hynny, nid yw'r meini prawf yn bodloni nodau Llywodraeth Cymru nac anghenion y sector. Mae’n ymwybodol y caiff awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn wrth gymhwyso'r meini prawf, ond ymddengys bod y profiad hyd yma’n awgrymu nad yw hyn yn digwydd bob amser. Mae pryderon hefyd ynghylch faint o amser mae'n ei gymryd i drafod ceisiadau a chyhoeddi grantiau, sy'n cael effaith sylweddol ar y busnesau hyn. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o'r dystiolaeth y mae awdurdodau lleol yn gofyn amdani eisoes wedi'i darparu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel rhan o'r broses i gynnwys eiddo o'r fath yn y cynllun Ardrethi (Busnes) Annomestig. Mae wedi awgrymu, o ganlyniad i hynny, nad oes angen i awdurdodau lleol ofyn am y wybodaeth hon at ddibenion gwneud cais am y grant, ac felly mae hynny’n lleihau biwrocratiaeth ac yn cyflymu'r broses. A fydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r meini prawf yn sgil y dystiolaeth hon, a sut y byddwch yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector i sicrhau y gall busnesau o'r fath gael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt i oroesi'r cyfyngiadau cyfredol?

Diolch eto am roi eich amser ac am fod mor agored wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.